



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Cofnodion Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

18 Mai 2018

9:00 am - 12:30 pm

Optic, Llanelwy

Yn Bresennol:	Y Cyng Gareth Roberts (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Neil Ayling, Jenny Williams, Richard Debicki, Caroline Turner, Teresa Owen, y Cyng Joan Lowe, y Cyng Christine Jones Charlotte Walton, Mary Wimbury, Vin West, Wendy Jones, y Cyng Bobby Feeley, y Cyng Liz Roberts, y Cyng Llinos Medi Huws, Lynda Colwell, Helen MacArthur
Ymddiheuriadau:	Morwena Edwards, Nicola Stubbins, Margaret Hanson, Debbie Shaffer, Dave Worrall, Andrew Long, Morag Olsen Nododd y Cyng LIMH y byddai'n gadael y cyfarfod am 11.15am.
Hefyd yn Bresennol:	Stephanie Griffiths (GCC), Lyndsey Rawlinson (CNC), Iwan Trefor Jones (BUEGC), Sarah Bartlett, Rheolwr Prosiect Rhanbarthol, DCI Helen Douglas (Arweinydd yr Heddlu ar yr Ymagwedd ACE Genedlaethol tuag at y Rhaglen Plismona Bregusrwydd), Fflur Jones (Swyddfa Archwilio Cymru, arsylwi).

Eitem		Camau Gweithredu
1.	<u>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</u> Croesawodd y Cyngorydd Roberts bawb i'r cyfarfod, cyflwynwyd pawb a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod. Estynnwyd croeso cynnes i Fflur Jones (Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cynnal gwerthusiad o'r Gronfa Gofal Canolraddol (ICF))	
2.	<u>Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfodydd diwethaf.</u> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ebrill fel cofnod cywir o'r cyfarfod. <u>Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)</u> Adroddodd RD fod HGC wedi sicrhau cyllid yn ddiweddar ar gyfer y project ACE, ac y bydd yn ceisio cymorth i ddarparu'r prosiect trwy ddull amlasiantaeth. Adroddodd HD fod gan ranbarth GC dîm penodedig sydd wedi'i gyllido tan Mawrth 2020, gydag arweinydd Heddlu ac arweinydd Partneriaeth eisoes wedi'u sefydlu. Crëwyd pedwar amcan strategol i drawsnewid y ffordd y mae'r	Cyflwyniad ACE ar raglen cyfarfod mis Mehefin – RD/HD

	<p>heddlu'n mynd i'r afael â materion ACE. Ystyriwyd BPRhGC fel partner posib i ymgymryd â chyfrifoldebau llywodraethu'r prosiect hwn. Bydd angen i Brif Swyddogion Gweithredol GC gytuno i'r cynnig.</p>	
<p>3.</p>	<p><u>Gofal a Chymorth yn y Cartref</u></p> <p>Daeth Stephanie Griffiths i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar Ofal a Chymorth yn y Cartref.</p> <p>Mae'r prosiect Gofal a Chymorth yn y Cartref yn cefnogi gofal a chymorth ehangach i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi, a chyflawnir hyn drwy 6 prif faes:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod pobl a'u gofalwyr yn bartneriaid cyfartal wrth wneud penderfyniadau • Cydnabod pwysigrwydd gofalwyr, wedi'i seilio o amgylch y cymunedau sy'n bwysig i bobl • Cefnogi gwasanaethau i fod yn hyblyg, yn ddibynadwy ac i allu cydweithio • Defnyddio adnoddau'n ddoeth i helpu pobl i fyw'n annibynnol ac yn dda • Sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymchwil cywir • Defnyddio tystiolaeth o ymchwil academaidd ac ymchwil wedi'i seilio ar ymarfer i lywio'r prosiect <p>Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC), trwy grant hwyluso, yn archwilio rhan y gymuned a'r gofalwyr o ran dylanwadu ar Ofal a Chymorth yn y Cartref, a bydd yn cefnogi'r dull 'Beth sy'n Bwysig'.</p> <p>Mae'r cynnydd hyd yma'n cynnwys datblygu canolfannau a rhwydweithiau gwybodaeth i alluogi pawb i rannu ymchwil, gwybodaeth, tystiolaeth o ymarfer a data. Bydd grwpiau llywio a gweithgorau'n cael eu sefydlu i oruchwylio'r gwaith.</p> <p>Mae SG yn ymwybodol bod yna broblemau o hyd o ran Gofal Iechyd Parhaus (GIC) a thaliadau uniongyrchol. Gwnaed cais i LIC am wybodaeth ansoddol i ddangos bod hyn yn weithredol ac i ddarparu adborth i GCC.</p> <p>Cyflwynodd SG ddau fideo, gan nodi bod amrediad o gyhoeddiadau, clipiau fideo a dolenni ar-lein ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.</p> <p>Holodd NA beth yw safbwynt y maes Gofal Cymdeithasol ar ymatebion GIP i'r Adolygiad Seneddol, gan gwestiynau sefyllfa bresennol recriwtio i ofal cymdeithasol ledled Cymru o ran diffygion a phwysau.</p> <p>Cadarnhaodd SG y bydd y mater GIP sy'n ymestyn i daliadau uniongyrchol yn cael ei archwilio. Mae GCC yn gweithio o amgylch llwybrau gyrfa, gan gefnogi pobl yn eu rolau, a bydd gwaith parhaus ehangach o ran gofal plant yn codi proffil y sector cyfan.</p> <p>Lleisiodd MW ei phryder mewn perthynas â chofrestru'r gweithlu a'r materion ychwanegol a wynebwr mewn amgylchedd lle mae hi eisoes yn anodd recriwtio a chadw staff. Mae amser astudio, goblygiadau ariannol a chynnydd ym maich gwaith rheolwyr yn debygol o fod yn rhwystrau i staff ac i reolwyr. Cododd MW</p>	

	<p>bryder hefyd o ran ychwanegiadau cyllid, dyfarniadau cymwysterau sydd heb eu nodi eto a'r nifer o aseswyr allanol y bydd eu hangen i asesu'r cymwysterau. Nododd SG bod y broses gofrestru eisoes wedi cychwyn a bydd cofrestru staff yn dod yn orfodol yn 2020. Mae GCC yn cydnabod bod hwn yn gais enfawr i staff gofal cymdeithasol, i reolwyr sy'n gorfod cymeradwyo staff sydd wedi bod yn gweithio ers 3 mlynedd ac wedi dangos cymhwysedd, sgiliau, arbenigedd a gwybodaeth (yn llawn neu'n rhan amser), ac i'r holl staff gofal cymdeithasol eraill. Ni fydd rhaid i staff sydd wedi cwblhau Dyfarniad Lefel 2 erbyn 2020 gwblhau'r cymhwyster cyfan, a bydd y cymwysterau presennol yn parhau i gael eu cydnabod. Bydd y cymhwyster newydd gan Cymwysterau Cymru yn cael ei gyflwyno fesul cam ddechrau Medi 2019.</p> <p>Mynegodd MW bryder hefyd na fydd staff rhan amser sy'n gweithio llai na 15 awr yr wythnos yn gallu cyflawni'r cymhwyster o fewn y terfyn amser hwn. Nododd SG bod GCC yn ystyried gwaith pellach ar y mater uchod.</p>	
<p>4.</p>	<p><u>Bwrdd Uchelgais Economaidd</u></p> <p>Daeth ITJ i'r cyfarfod i roi diweddariad am waith BUEGC, yn bennaf am Fargen Dwf Gogledd Cymru a'r prosiectau sy'n cael eu hystyried.</p> <p>O fewn BUEGC, mae 26 o brosiectau unigol wedi cael eu hamlygu i gyflawni'r weledigaeth. Bydd rhai o'r prosiectau hyn yn mynd ymlaen i lunio Bargen Dwf Gogledd Cymru, a glustnodwyd i drawsnewid yr economi. Mae'r Fargen Dwf yn bwysig ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r pryderon sydd gennym o ganlyniad i Brexit.</p> <p>Mae BUEGC yn bartneriaeth gyfreithiol rhwng 6 o Arweinwyr ALI, sefydliadau addysgol a'r sector preifat, lle gwneir penderfyniadau gan ddefnyddio dull cynhwysol.</p> <p>Bydd pum Grŵp Cyflenwi yn gweithredu ar ran BUEGC i ymgymryd â rhaglenni gwaith thematig er mwyn gyrru'r rhaglen yn ei blaen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau a Gwaith • Cludiant • Safleoedd ac Eiddo • Busnes ac arloesi • Seilwaith digidol <p>Cadarnhaodd ITJ bod y cydbwyllgor cyfreithiol sy'n cynnwys 6 o Arweinwyr ALI a chynrychiolwyr o fyd addysg a'r sector preifat, wedi atgyfnerthu prosesau llywodraethu'r is-grwpiau o fewn pob rhaglen waith.</p> <p>Mae aelodau'r BPRh yn falch o gael gwybod bod iechyd a gofal cymdeithasol a'r sector digidol wedi cael eu hystyried fel meysydd i'w datblygu dros y misoedd i ddod.</p> <p>Mae ITJ yn ymwybodol fod BGGC wedi amlygu'r angen am gynllun rhanbarthol a bydd hyn yn cael ei archwilio er mwyn symud rhai o'r gwelliannau ymlaen. Mae'r mater hwn wrthi'n cael ei drafod gan LIC a'r Senedd a bydd grŵp gorchwyl BUE hefyd yn cael ei sefydlu i adolygu.</p>	<p>Gwahodd ITJ yn ôl i adrodd ym mis Medi/Hydref</p>

Un o'r prosiectau sy'n cael eu datblygu mewn perthynas â'r maes digidol yw cysylltu ffibr optig i eiddo ac eiddo masnachol. Gallai'r datblygiad hwn drawsnewid y modd y darperir gwasanaethau. Bydd staff y maes gwaith hwn yn rhan o'r prosiect ac mae trafodaethau ar y gweill gyda sawl cwmni preifat mawr. Bydd Cyd Gronfa Ffyniant, sef arian cronfa strwythurol sy'n dychwelyd i'r DU yn dilyn Brexit, hefyd yn cael ei defnyddio.

Mae'n hanfodol osgoi dyblygu gwaith. Mae'r gwaith parhaus ar y gweithlu'n cynnwys ymgysylltu â phob budd-ddeiliaid yn y rhanbarth. Bydd y ddarpariaeth bresennol yn cael ei arwain gan angen y farchnad, gan gydnabod cynlluniau gweithlu tymor byr a thymor hir.

Pwysleisiodd BF bwysigrwydd sefydlu trefniadau llywodraethu cywir er mwyn gweithio fel un, o ran cydweithio â LIC, Llywodraeth y DU ac yn drawsffiniol.

Nododd ITJ bwysigrwydd creu partneriaeth ac ymgysylltu â'r sector preifat, gyda bargeinion dinasoedd trawsffiniol i'w gweld yng Nghanolbarth Cymru, yn Warrington, Manceinion a Lerpwl, a phwysigrwydd buddsoddiadau trawsffiniol. Mae'r BUE wedi clustnodi risgiau posib ac wedi sefydlu cynlluniau i liniaru'r risgiau hyn.

Nododd TO fod y BI eisoes yn gweithio'n rhanbarthol a bod ganddo hefyd gysylltiad â'r Canolbarth. Mae'r Fargen Dwf yn gyfle enfawr i recriwtio staff er mwyn cefnogi'r rhanbarth. Holodd TO sut y bydd y bwllch mewn cyflogaeth ar draws ardaloedd Gogledd Cymru yn cael ei leihau.

Cadarnhaodd ITJ y bydd y Fargen Dwf yn sicrhau y bydd twf yn lledaenu ledled Gogledd Cymru, gan gyrraedd cymaint o'r boblogaeth ac y bo modd. Mae hyn wedi bod yn rhan bwysig o'r strategaeth o'r cychwyn cyntaf.

Cyfeiriodd ITJ at y ffaith fod yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn cael ei datganoli i'r Gogledd i integreiddio â chynigion cyflogaeth LIC. Byddai'r cynnig hwn yn sefydlu gwell perthynas rhwng asiantaethau ac yn lleihau'r bwllch ledled Gogledd Cymru.

Nododd MW bod y gweithlu'n bwysig nid yn unig mewn perthynas â swyddi gweithlu, ond hefyd wrth ystyried pob BBACh sy'n darparu gofal, gan alluogi pobl i weithio ledled Gogledd Cymru.

Cadarnhaodd ITJ bod cannoedd o BBACh yn y sector penodol hwn, gydag amrywiaeth o gefnogaeth yn dod o sawl cyfeiriad. Bydd cyfuno adnoddau'n cael ei ystyried fel ffordd o gefnogi BBACh trwy ganolfannau sy'n delio â'r cyhoedd wyneb yn wyneb.

Un o gyfleoedd cyllido eraill y Fargen Dwf fydd cludiant, ac mae is-grŵp BUE wedi'i sefydlu i drafod cludiant posib pellach.

Holodd RD i ba raddau y mae diogelwch cymunedol wedi cael ei ystyried mewn perthynas ag ystyried Gogledd Cymru'n lle da i fyw a gweithio ynddo a denu busnesau i Ogledd Cymru, a'r rhwystrau y mae'r rhanbarth yn eu hwynebu.

	<p>Cydnabu ITJ y bydd y cyswllt hwn yn cael ei gryfhau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu safleoedd ac eiddo penodol ledled y rhanbarth, gan ymgysylltu â datblygwyr a busnesau. Byddai trafodaethau pellach ar faterion trosedd gyda HGC y tu allan i'r cyfarfod hwn yn fuddiol.</p> <p>Adroddodd y Cyng LIMH, fel aelod o BUEGC, ar yr heriau enfawr sy'n wynebu'r Bwrdd a'r cyflawniadau a gyrhaeddwyd ac sydd ar y gweill er budd economi GC.</p>	
<p>5.</p>	<p><u>Diweddariad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a chynllun CBS Wrecsam</u></p> <p>Daeth Lyndsey Rawlinson, Pennaeth Gweithrediadau Cyfoeth Naturiol Cymru a chadeirydd BGC Wrecsam i'r cyfarfod i gyflwyno cynllun BGC Wrecsam.</p> <p>Cafwyd trosolwg cynhwysol o BGC Wrecsam gan LR, gan gynnwys pedwar cam 'Y Wrecsam a Garem'. Cynhaliwyd amrywiol ddogfenniadau gyda chroestoriad eang o'r gymuned i gynnwys ymfudwyr economaidd.</p> <p>Mae'r cynllun lles yn canolbwyntio ar 15 amcan gan ddefnyddio 9 chwestiwn i asesu blaenoriaeth yr amcanion. Bu hon yn sesiwn heriol, gyda phob partner yn nodi blaenoriaethau gwahanol. Penderfynwyd canolbwyntio ar ddau brif amcan, gyda thri arall yn amcanion treigl ar gyfer 2018-2023.</p> <p>Mae is-grwpiau'r BGC, Bwrdd Cychwyn Iach y BGC, Bwrdd Dysgu Gydol Oes y BGC, Tîm Amlasiantaeth y BGC a'r Bwrdd Partneriaeth Iechyd Da wedi helpu dilysu trefniadau lywodraethu, gan ddatblygu'r cylch gorchwyl a chynlluniau'r prosiect.</p> <p>Nododd LR ei bod yn cytuno fod gan y BPRh a'r BGC gylchoedd gwaith tebyg, y BGC i ddatblygu'n lleol a'r BPRh i gymryd golwg mwy strategol.</p> <p>Roedd rhywfaint o eiriad y ddogfen yn aneglur i VW, h.y. nid oedd y ddogfen yn dangos dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng bywyd annibynnol a byw'n annibynnol, twristiaeth gynaliadwy, a'r geiriad ar ddewisiadau bwyd iach.</p> <p>Nododd CW y dylid osgoi dyblygu a chael llawer o grwpiau ar wahân, gan nad oes gan fwyafrif y sefydliadau ddigon o swyddogion i wasanaethu llawer o wahanol gyfarfodydd.</p> <p>Nododd TO bod cyswllt ym mhob BGC ag iechyd ac ACE; mae'r anghenion ychydig yn wahanol ond dylent ffurfio sgwrs gyffredin.</p>	
<p>6.</p>	<p><u>Diweddariad ar y Strategaeth Anableddau Dysgu (AD)</u></p> <p>Cafwyd diweddariad gan NA ac SB ar Ffrwd Waith a Strategaeth AD.</p> <p>Mae cryn waith wedi'i gwblhau i ddatblygu'r ffrwd waith hon ac mae'r ymgynghoriad bellach wedi'i lansio. Mae'r holiadur yn cynnwys gwahanol opsiynau ac anogir pawb i gwblhau'r ymgynghoriad a ddaw i ben ar 20 Gorffennaf 2018.</p>	

	<p>Awgrymodd y Cyng LIMH y gellid gwahodd Swyddog Addysg i fod yn aelod o'r grŵp er mwyn cynnig mewnbwn i'r strategaeth yn sgil newidiadau i'r Ddeddf sy'n golygu bod addysg yn dod yn gyfrifol am blant/dinasyddion gydag AD nes eu bod yn 25 oed.</p> <p>Cydnabu VW yr adroddiad cynhwysfawr hwn, ond nododd nad yw'r adroddiad yn cyfeirio at daliadau uniongyrchol. Amlygir ymddygiad heriol fel un o'r meysydd problemau o fewn yr adroddiad, ond fe allai fod yn ymddygiad arferol mewn perthynas ag eiriolaeth.</p> <p>Cytunodd NA y dylai taliadau uniongyrchol fod yn rhan allweddol o'r strategaeth, a bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad terfynol.</p> <p>Tynnodd JW sylw at y ffaith fod yr adroddid yn canolbwyntio'n gyffredinol ar oedolion, heb fawr o gyfeiriad at blant. Mae'n bwysig i blant gael eu cynrychioli o'u genedigaeth ymlaen, gan fod nifer o heriau i blant wrth gael gafael ar wasanaethau AD/IM.</p> <p>Bydd angen diweddariad pellach o ran ystadegau diogelu Gogledd Cymru.</p> <p>Cytunodd NA bod yr adroddiad wedi'i ysgrifennu o safbwynt oedolion, a bydd rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae NA/SB ar fin mynychu cyfarfod Penaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru (NWHOCS) i gwrdd â rheolwyr grwpiau plant sy'n cael eu rhyddhau i ofyn am grŵp cyffelyb i arolygu safbwynt y plant.</p> <p>Cadarnhaodd NA y bydd yr ystadegau yn yr adroddiad yn cael eu diweddarau ar gyfer pob rhanbarth, ac y bydd ffocws pellach yn cael ei roi ar faterion trawsffiniol, gan nodi camau allweddol. Bydd disgwyl i'r strategaeth derfynol fynd trwy broses wleidyddol pob ALLI.</p>	<p>Gwahodd Swyddog Addysg i ymuno â'r grŵp – SB/NA</p> <p>Angen gwaith pellach i gynnwys plant fel bod y strategaeth yn un i bob oedran – SB/NA</p> <p>Partneriaid i gyflwyno'r ystadegau cywir ar gyfer eu hardaloedd.</p>
<p>7.</p>	<p><u>Canllawiau ar yr Adroddiad Blynyddol</u></p> <p>Mae Fersiwn 1 yr adroddiad blynyddol wedi cael ei ddsbarthu. Gwahoddir aelodau'r bwrdd i gynnwys eu barn ar y BPRhGC yn adran 2 o'r adroddiad. Awgrymodd GR y dylid atgyfnerthu elfen cyllidebau cyfun yr adroddiad, gan nodi y cytunwyd ar y gyllideb gyfun heb rannu risg ar yr amod bod tystiolaeth yn cael ei chyflwyno i gadarnhau bod y model hwn yn gweithio mewn gwirionedd.</p> <p>Awgrymodd NA hefyd y dylid crybwyll y byddai gwaith is-ranbarthol hefyd yn digwydd dan y pennawd cyllidebau cyfun.</p> <p>Ailadroddodd LIMH hefyd nad oes yna dystiolaeth wirioneddol ar gael i ddangos bod cyllidebau cyfun rhanbarthol yn gweithio.</p> <p>Roedd pob aelod yn cytuno ar y penderfyniad hwn.</p>	<p>Anfon ymateb ar gyfer adran 2 ymlaen i BJE ar unwaith.</p> <p>BJE i ddiweddarau'r adroddiad yn dilyn trafodaeth heddiw.</p>

<p>8.</p>	<p><u>Y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF)</u></p> <p>Hysbysodd BJE y Bwrdd mai NA sydd bellach yn arwain ar ICF.</p> <p>Cyflwynodd BJE adroddiad cynhwysfawr ar wariant crynodeb refeniw ICF 2017-18 o £11.4M.</p> <p>Nododd MW bod canllawiau ICF yn ceisio hybu a galluogi cydweithio, ac awgrymodd y dylid cyflwyno adroddiad manwl i'r Bwrdd yn dangos gwariant yr holl bartion, gan gynnwys partneriaid annibynnol, gan nodi partneriaid mewnol neu allanol.</p> <p>Rydym yn dal i aros am ganllawiau swyddogol LIC ar gyfalaf, sydd i fod i gyrraedd erbyn diwedd Mai. Bydd gofyn i ranbarthau ddatblygu cynllun cyfalaf strategol tymor hwy i ddefnyddio'r cyllid hwn. Mae'n bwysig cael golwg tymor hwy a strategol, ond bydd hyn yn cael ei dorri i lawr yn gyfran gyfartal o wariant bob blwyddyn. Bydd trefniadau hawlio newydd yn y dyfodol yn rhoi gwybod am unrhyw danwariant ar unwaith.</p> <p>Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r adroddiad.</p> <p><u>Cynllun Refeniw</u></p> <p>Dywedodd TO fod MO wedi bod i ffwrdd o'r gwaith ac nad yw wedi cadarnhau'r cynllun refeniw eto.</p> <p>Dywedodd BJE bod y cynllun eisoes wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Leol ar 27.04.2018 ar ran y BPRh, ac y bydd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan ar 01.06.2018 a'i ddiweddarau bob chwarter yn unol â gofynion LIC.</p> <p>Gofynnodd y Cyng JL am ddadansoddiad o'r ffigyrau ar gyfer pob sir ar gyfer cynlluniau buddsoddi dilynol.</p> <p><u>Cyllidebau Cyfun</u></p> <p>Nododd BJE y bydd cyllidebau cyfun yn cael eu trafod yn llawn yn y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin.</p> <p>Gweler y llythyr a gafwyd gan LIC a'r adroddiad ICF ym mhecyn cyfarfod heddiw er gwybodaeth.</p>	
<p>9.</p>	<p><u>Unrhyw Fater Arall</u></p> <p><u>Cylch Gorchwyl</u></p> <p>Mae BJE yn ceisio cytundeb aelodau'r Bwrdd i gymeradwyo'r fersiwn sydd wedi'i diweddarau.</p> <p>Gofynnodd yr Aelodau am y diwygiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys brawddeg am rannu papurau cyfarfodydd â rhwydweithiau perthnasol – mae hyn ar gyfer swyddogion sy'n mynychu fel cynrychiolwyr. • Newid teitl TO i Cyfarwyddwr Gweithredol, BIPBC (Cyfetholedig) • Nododd Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) mai hi fydd yn parhau i gynrychioli GTAGC. 	<p>Diweddarau'r CG - BJE</p>

	<p>Nododd VW nad yw'r rheswm dros gynnal cyfarfodydd caeedig wedi'i egluro.</p> <p><u>Adroddiad Gofalwyr</u></p> <p>Mae'r adroddiad Gofalwyr wedi'i gynnwys i hysbysu'r Bwrdd am yr argymhellion ar wariant cyllid LIC a ddyrannwyd ar gyfer Gofalwyr yn 2018/19.</p> <p>Datblygwyd yr argymhellion gan bartneriaid y grwpiau gweithredol a strategol, a gynigiodd weithredu gwasanaethau cymorth i ofalwyr ar safleoedd ysbytai aciwt ledled y rhanbarth, ar sail model presennol Ysbyty Gwynedd, a pharhau gyda'r hwylusydd gofal sylfaenol a'r peilot ysgolion cynradd presennol ar gyfer gofalwyr ifanc. Cymeradwyodd BPRhGC y cynnig i ddefnyddio'r grant.</p>	<p>LJ Cyfreithiol i fynychu cyfarfod Mehefin.</p>
	<p>Dyddiad y cyfarfod nesaf: dydd Gwener 22 Mehefin am 9.00am</p>	